Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2024 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C L Philpott | M S Tribe | V A Holland |
| C A Holley | P R Hood-Williams | A J Jeffery |
| J W Jones | E T Kirchner | M W Locke |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Jon Franklin | Rheolwr Cydlynu Ardaloedd Lleol |
| Lucy Friday | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen St John | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Aelod(au) Cyfetholedig: T Beddow

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Chris Holley gysylltiad personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Diweddariad ar Raglen Trawsnewid a Gwella'r Gwasanaethau i Oedolion

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a swyddogion perthnasol yn bresennol er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y tair prif thema dan y Rhaglen a'r ffocws arfaethedig ar gyfer 2024-25.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y panel a oes nyrsys hyfforddedig neu ofalwyr hyfforddedig mewn cartrefi gofal, ac a oes rhywfaint o hyfforddiant arbenigol. Dywedwyd bod cartrefi preswyl mewnol yn gartrefi 'gofal' ac os asesir bod gan bobl anghenion nyrsio, byddent yn cael eu cefnogi i fynd i ddarpariaeth nyrsio sydd â chymorth meddygol. Esboniwyd bod timau ynghylch gofal preswyl yn ymdrin ag anghenion gofal cymhleth iawn ac maent wedi'u hyfforddi mewn amrywiaeth eang o gymorth.
- Gofynnodd y panel sut y mae'r Adran yn annog pawb i gydweithio i gydlynu'r bobl y mae angen cymorth cynnar arnynt. Esboniwyd o ran sianeli cyfathrebu, bu llawer o ailaddysgu staff mewnol a sicrhau bod partneriaid yn deall beth arall sydd ar gael.
- Trafododd y Panel y Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC). Bu gwelliant yn ystod y naw mis diwethaf gyda 28% o ymholiadau i PMC yn cael eu cymeradwyo neu eu cau ar y pwynt cyswllt. Mae'r panel yn falch o weld hyn.
- Gofynnodd y panel am eglurhad ynghylch yr hyn y mae 'Just Checking' yn ei olygu mewn perthynas â thechnoleg gynorthwyol. Clywodd ei fod wedi bod ar waith ers peth amser ond ar raddfa fach. Dros y 12 mis diwethaf mae wedi cael ei hyrwyddo fel opsiwn. Mae'n gyfres o fonitorau sy'n gallu mynd i gartref person i fonitro eu symudiadau a helpu i lywio asesiad.
- Ar gyfer pobl sy'n cael eu cynnal yn eu cartrefi eu hunain, gofynnodd y Panel sut y mae staff gofal cartref mewnol yn cael eu helpu i ymdrin ag unigolion a allai fod angen gofal ychwanegol arnynt neu a allai fod yn fwy heriol. Dywedwyd bod y gwasanaeth yn cael ei ailffocysu o ganlyniad i adborth gan staff, felly mae mwy o gefnogaeth gan y gymuned ehangach ac mae staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth reolaidd. Mae gan ddarparwyr a gomisiynwyd yn allanol wiriadau a monitro o ran ansawdd a safonau ac maent i gyd wedi'u cofrestru drwy Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- Holodd y panel a oes rôl i feddygon teulu o fewn y broses Cymorth Cynnar ac Atal. Dywedwyd bod yna rôl ond nad oeddent yn siŵr lle'r oedd y cysylltiad ac mae rhai clystyrau meddygon teulu yn well ar hyn nag eraill.
- Gofynnodd y panel a oes dibyniaeth ar staff asiantaeth yn rôl y gofalwr. Esboniwyd nad yw staff asiantaeth mewnol yn cael eu defnyddio ar gyfer gofal cartref. Yn hytrach, mae yna ddibyniaeth ar staff i wneud goramser a chyflenwi bylchau/salwch.
- O ran y broses ail-dendro ar gyfer gofal cartref a gomisiynwyd yn allanol, sicrhaodd y Panel nad oes disgwyl i ddarparwyr allanol wneud mwy, mae'r

Cyngor yn gorfod ail-dendro i sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau. Bydd yn rhaid i ni aros am gasgliad y broses dendro i ddarganfod a yw'n ddrutach.

- Trafododd y Panel sut y mae'r Gwasanaeth am i bobl fyw'n annibynnol a gofalu am eu hunain yn fwy a holwyd a oes unrhyw anfanteision i hyn. Esboniwyd ei fod yn ymagwedd unigol iawn, mae rhai pobl am fod yn eu cartref eu hunain ac mae eraill yn ffynnu mewn lleoliad mwy cymunedol mewn cartref preswyl.
- Trafododd y Panel ofal cartref mewn ardaloedd gwledig a gofynnwyd am gynnydd o ran sefydlu micro-fentrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Esboniwyd bod nifer y taliadau uniongyrchol wedi cynyddu ac mae mwy o ficro-fentrau a mentrau cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth yn hyrwyddo eu datblygiad drwy CGGA ac maent yn cadw cyfeiriadur.

## 6 Cyflwyniad - Y diweddaraf am Gydlynu Ardaloedd Lleol

Roedd Hayley Gwilliam, Aelod y Cabinet dros Gymorth Cymunedol a swyddogion perthnasol yn bresennol i gyflwyno'r diweddaraf i'r Panel ac i rannu rhai enghreifftiau o'r effaith y mae Cydlynwyr Ardaloedd Lleol wedi'i chael. Mae adroddiad effaith llawn ar gyfer 2023-24 wedi'i ddrafftio a bydd y fersiwn derfynol yn cael ei rhannu gyda chraffu yn ddiweddarach.

Pwyntiau Trafod:

- Mynegodd y panel bryder am y posibilrwydd o golli swyddi CALl oherwydd pwysau ariannol a gofynnwyd am ragor o wybodaeth. Esboniwyd bod y gwasanaeth yn destun ymgynghoriad staff ar hyn o bryd oherwydd effaith ariannu'r Tîm CALl. Esboniwyd bod costau wedi cynyddu, ni fu toriad i gyllid y Cyngor ar gyfer 2024-25, ond mae'n wastad, a bu gostyngiad mewn cyllid grant, sy'n ffurfio 60% o'r cyllid. Nododd y Panel nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud hyd yn hyn ac mae nifer o bethau'n cael eu hystyried, gan gynnwys meini prawf a daearyddiaeth.
- Gofynnodd y Panel am ddadansoddiad o'r costau, gan gynnwys sut y mae'r cyllid yn cael ei ddosbarthu, o le daw'r cyllid ac effaith ganlyniadol CALl. Mae'r Panel yn teimlo y byddai rhywfaint o'r dadansoddiad cost am arbedion buddiol yn ddefnyddiol iawn wrth ddarparu tystiolaeth o fudd CALl.
- Gofynnodd y Panel am sicrwydd y bydd CALl yn gwasanaethu ardal gyfan Cyngor Dinas Abertawe. Esboniwyd bod hyn yn rhan o'r hyn y mae'n rhaid ei ystyried.
- Mae'r panel yn teimlo bod CALl wedi bod yn gwneud gwaith rhagorol ac wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Pwysleisiodd Aelodau'r Panel eu bod yn erbyn colli unrhyw swyddi CALl.

Camau Gweithredu:

- Darparu dadansoddiad o'r ffigurau ar gyfer Cydlynu Ardaloedd Lleol, fel y nodir uchod, i'r Panel.

## 7 Cynllun Waith 2023-24

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm.